



HM Government

# Cefnogaeth Gymunedol

## Cyfarwyddyd i ddarpar gefnogwyr



Cyhoeddwyd gyntaf Gorffennaf 2016. Diweddarwyd Rhagfyr 2018.

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Cefndir.....	5
Beth yw Cefnogaeth Gymunedol?.....	5
Beth yw Gwaith Cefnogwr Cymunedol? .....	6
Beth yw Teulu a Adsefydlwyd? .....	6
Astudiaethau Achos Cefnogaeth Gymunedol.....	8
A All Unrhyw Un fod yn Gefnogwr Cymunedol?.....	10
Pa Hyfforddiant a Cefnogaeth Sydd ar Gael? .....	10
Crynodeb o'r Broses Ymgeisio .....	11
Mathau o Gymeradwyaeth .....	11
Pa Feini Prawf Sydd yn Ofynnol i Gefnogwr Cymunedol eu Bodloni? .....	12
Statws y Sefydliad a'r Cefnogwr Arweiniol.....	12
Adnoddau Ariannol .....	12
Tai.....	13
Caniatâd Awdurdod Lleol.....	13
Cynllunio ar gyfer Adsefydlu .....	14
Diogelu .....	15
Polisi Diogelu .....	15
Polisi Cwynion .....	15
Hyfforddiant .....	15
Sut Fydd y Swyddfa Gartref yn Prosesu Ceisiadau am Gymeradwyaeth fel Cefnogwr Cymunedol? .....	15
Gwiriadau ar Bersonél .....	15
Ymweliadau .....	16
Cais Llwyddiannus.....	16
Cais Aflwyddiannus .....	17
Beth sy'n Digwydd ar ôl Cael Cymeradwyaeth?.....	17
Cytundeb .....	17
Dyrannu Teulu i'w Adsefydlu .....	17
Cyrraedd.....	17
Beth yw Rhwymedigaethau'r Cefnogwr ar ôl cael Cymeradwyaeth? .....	18
Cadw Cofnodion a Phreifatrwydd .....	18
Monitro a Gwerthuso .....	18

Defnyddio Gwybodaeth .....	18
Atodiad A – Datganiad o’r Gofynion ar gyfer Cefnogwyr .....	20
Llety .....	20
Croeso i'r Deyrnas Unedig .....	21
Sefydlu Bywyd yn y Deyrnas Unedig .....	21
Atodiad B – Partneriaethau Mudo Strategol Rhanbarthol – Manylion Cyswllt .....	23

## Cyflwyniad

Dros y degawd diwethaf, mae gwrthdaro ar draws Rhanbarth y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica (MENA) wedi gadael miliynau o bobl angen eu diogelu. Chwaraeodd y Deyrnas Unedig ran bwysig wrth gefnogi'r rhai oedd angen eu diogelu: trwy ymdrech ddyngarol y Deyrnas Unedig yn Syria, ein hymateb mwyaf erioed i un argyfwng dyngarol; ac un o'r gwledydd y mae mwyaf o adsefydlu wedi bod ohoni, gan helpu i adsefydlu'r ffoaduriaid mwyaf bregus. Mae awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol ar draws y Deyrnas Unedig yn helpu ffoaduriaid i deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn gallu addasu i fywyd newydd yn y Deyrnas Unedig.

Mae Cefnogaeth Gymunedol yn ffordd i gymunedau lleol, sefydliadau cymdeithas sifil, grwpiau ffydd a busnesau i gymryd rhan yn uniongyrchol i helpu ffoaduriaid i setlo yn y Deyrnas Unedig. Mae cefnogwyr cymunedol yn rhoi cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i alluogi teuluoedd sydd wedi eu hadsefydlu i ailadeiladu eu bywydau ac i ddod yn hunangynhaliol yn eu cymuned newydd. Gall bod yn gefnogwr ddwyn budd i'r gymuned leol, trwy alluogi haelioni pobl leol, a chreu cysylltiadau newydd yn y gymuned.

Mae llawer o sefydliadau ac unigolion eisoes yn ymwneud yn weithredol â chefnogi ffoaduriaid i adsefydlu yn y Deyrnas Unedig. Mae'r ddogfen hon yn nodi fframwaith sy'n galluogi grwpiau cymunedol i arwain wrth adsefydlu teuluoedd o ffoaduriaid. Mae'n esbonio sut y bydd y broses yn gweithio, y meini prawf y mae'n rhaid i ddarpar gefnogwyr eu bodloni, a sut i ymgeisio.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys y ffurflen gais, nodiadau cyfarwyddyd ymgeisio, cyfarwyddyd i awdurdodau lleol, a chytundeb cefnogi enghreifftiol, ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/apply-for-full-community-sponsorship>

Os hoffech gysylltu â'r Swyddfa Gartref am y Cynllun Cefnogaeth Gymunedol, anfonwch e-bost at y Tîm Cefnogaeth Gymunedol yn: [communitysponsorship@homeoffice.gov.uk](mailto:communitysponsorship@homeoffice.gov.uk)

Diolch am eich diddordeb mewn cefnogi pobl fregus sy'n ffoi rhag gwrthdaro.



## Cefndir

Mae'r Cynllun Adsefydlu Personau Bregus (VPRS) yn helpu ffoaduriaid y mae'r gwrthdaro yn Syria yn effeithio arnynt, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r angen mwyaf, gan gynnwys pobl sydd angen triniaeth feddygol frys, rhai sydd wedi goroesi trais ac arteithio, a menywod a phlant sydd mewn perygl. Rydym yn gweithio'n glos gydag Uchel Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid (UNHCR) i ddynodi ffoaduriaid bregus sydd angen eu hadsefydlu ac mai dim ond mewn gwledydd fel y Deyrnas Unedig y gall eu hanghenion penodol gael eu bodloni.

Nod y Cynllun Adsefydlu Plant Bregus (VCRS) yw diogelu'r plant mwyaf bregus yn y rhanbarth MENA, pan fydd yr UNHCR yn pennu mai adsefydlu sydd orau i'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys plant bregus y mae eu teuluoedd gyda nhw, fel y rhai mewn perygl o orfod gweithio, priodi yn blant a ffurfiau eraill o gamdriniaeth neu gamfanteisio.

Mae awdurdodau lleol, gyda chefnogaeth grwpiau cymunedol a'r sector gwirfoddol yn aml, wedi chwarae rôl hanfodol yn helpu'r rhai sy'n cyrraedd yma i deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn gallu addasu i fywyd newydd yn y Deyrnas Unedig.

Rhoddir manylion am bolisïau adsefydlu a chynlluniau adsefydlu'r Swyddfa Gartref yn: <http://www.gov.uk/government/publications/resettlement-policy-statement>

## Beth yw Cefnogaeth Gymunedol?

Mae cefnogaeth gymunedol yn ddatblygiad arloesol i adsefydlu teuluoedd o ffoaduriaid yn y Deyrnas Unedig, trwy'r VPRS a'r VCRS. Mae'n galluogi grwpiau cymunedol i ymwneud yn uniongyrchol â chefnogi adsefydlu ffoaduriaid sy'n ffoi rhag gwrthdaro ac sydd angen eu diogelu (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'teuluoedd a

adsefydlwyd') yn y Deyrnas Unedig. Mae'n annog arloesedd wrth adsefydlu sydd â'r gallu i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i adsefydlu, ar gyfer y teuluoedd a adsefydlwyd a'r cymunedau lleol hefyd.

## Beth yw Gwaith Cefnogwr Cymunedol?

Mae cefnogaeth gymunedol yn ymrwymiad sylweddol ac ni ddylech danbrisiu'r ymrwymiad a'r gwytnwch y bydd angen i'ch sefydliad eu dangos.

Fel cefnogwr cymunedol bydd teulu sy'n ffoi rhag gwrthdaro yn cael ei ddyrannu i chi, a'ch cyfrifoldeb chi fydd cefnogi'r teulu a adsefydlwyd o'r eiliad y byddant yn cyrraedd y Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn cynnwys:

- cyfarfod y teulu yn y maes awyr;
- rhoi croeso cynnes a chyflwyno'r diwylliant lleol;
- darparu tai;
- cefnogi mynediad at wasanaethau meddygol a gwasanaethau cymdeithasol;
- Hyfforddiant Saesneg;
- cefnogi presenoldeb mewn apwyntiadau Canolfannau Byd Gwaith a chymorth i ddefnyddio'r ddarpariaeth lles cymdeithasol; a,
- chefnogaeth tuag at waith a bod yn hunangynhaliol.

Bydd eich cyfrifoldeb ffurfiol am gefnogi'r teulu sydd wedi ei adsefydlu yn parhau am un flwyddyn, ac eithrio tai, y mae'r cyfrifoldeb yn parhau am ddwy flynedd amdano. Efallai y byddwch yn dewis rhoi cefnogaeth tu hwnt i hyn, yn ôl anghenion y teulu a adsefydlwyd. Gellir gweld rhagor o fanylion am yr union ofynion ar gyfer cefnogi teulu a adsefydlwyd yn **Atodiad A**.

## Beth yw Teulu a Adsefydlwyd?

Pobl fregus sy'n ffoi rhag gwrthdaro yw teuluoedd a adsefydlwyd. Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd sydd wedi eu hadsefydlu yn y Deyrnas Unedig dan y VPRS o Syria. Siaradwyr Arabeg fyddant yn bennaf ac maent yn cael eu cyfeirio gan yr UNHCR o'r rhanbarth sy'n amgylchynu Syria. Cyfeirir teuluoedd a adsefydlwyd yn y Deyrnas Unedig dan y VCRS hefyd gan yr UNHCR o'r rhanbarth o amgylch Syria ac maent o amrywiaeth o genhedloedd, fel Irac a Sudan. Gall y teuluoedd yma fod yn siarad Arabeg, Asyrieg, Farsi, Dari neu ieithoedd eraill fel eu prif iaith. Nid yw cefnogwyr cymunedol yn gallu dynodi neu ddewis unigolyn, teulu neu genedl unigol i'w cefnogi, ond byddwn yn gofyn i chi ddynodi'r math o gefnogaeth cyfieithu ar y pryd y gellir ei rhoi ar y ffurflen gais.

Bydd pob teulu a adsefydlwyd yn wahanol ond fe fyddant i gyd wedi dioddef colli eu cartref. Bydd llawer wedi colli anwyliaid, ffrindiau a theulu, a gweld effeithiau dychrynlyd rhyfel. Gall rhai fod ag anghenion meddygol penodol neu anabledau.

Mae'n bwysig cydnabod na fydd yr holl deuluoedd a adsefydlwyd yn hapus o fod wedi cyrraedd y Deyrnas Unedig ar y dechrau. Bydd y rhyddhad o fod wedi cyrraedd

Ile diogel yn cael ei wrthbwysu gan y galar oherwydd yr hyn y maent wedi ei adael ar ôl ac euogrwydd am eu bod wedi goroesi hefyd, efallai.

Dyma sut y gall cefnogwyr cymunedol helpu: trwy gefnogi teulu a adsefydlwyd trwy ddangos bod croeso iddynt yn y Deyrnas Unedig, eu helpu i addasu a chreu bywyd newydd iddynt eu hunain, a sefyll ar eu dwy droed eu hunain. Bydd cefnogaeth cefnogwr cymunedol yn cael effaith allweddol ar hapusrwydd a lles y teulu yn y dyfodol.

Bydd y teulu a adsefydlwyd yn cael statws ffoaduriaid a hawl i aros am bum mlynedd. Yn ystod yr amser hwn, bydd ganddynt yr hawl i weithio a hawlio'r incwm lles cymdeithasol perthnasol. Ar ôl pum mlynedd, bydd y teulu a adsefydlwyd yn cael y dewis i ymgeisio am hawl i aros am gyfnod amhenodol yn y Deyrnas Unedig.

## Astudiaethau Achos Cefnogaeth Gymunedol

Mae'r astudiaethau achos yma yn darlunio profiadau dau deulu gwahanol a dderbyniwyd i'w hadsefydlu yn y Deyrnas Unedig trwy Gefnogaeth Gymunedol. Mae'r astudiaethau achos yn cynrychioli profiadau gwirioneddol o gefnogaeth gymunedol ond mae'r manylion wedi eu newid er mwyn parchu preifatrwydd teuluoedd a adsefydlwyd. Mae pob teulu a adsefydlwyd yn wahanol, fel y mae profiad pob cefnogwr cymunedol.

### Astudiaeth achos 1

Adsefydlwyd teulu o Balesteina yn cynnwys gŵr a gwraig, un oedolyn o fab a dwy ferch yn eu harddegau mewn tref farchnad fechan yn y Deyrnas Unedig o Irac. A hwythau yn ddisgynyddion i ffoaduriaid oedd wedi eu gorfodi o'u cartrefi, roedd y teulu yn cael eu gwahardd rhag dychwelyd adref, wedi eu hamddifadu o'u dinasyddiaeth, ac roeddent yn cael eu gorfodi i symud yn aml gan grwpiau milwrol oedd yn bygwth lladd y tad os na fyddent yn gadael.

Roedd y teulu wrth eu boddau o feddwl y byddent yn cael eu diogelu yn y Deyrnas Unedig, ond yn naturiol roeddent yn wynebu sialensiau personol ac ymarferol, gan gynnwys addasu i fywyd yn y Deyrnas Unedig, ac ymdrin â'r pryder o wybod bod rhai o'u hanwyliaid yn dal yn Irac.

Gweithiodd y grŵp cefnogi cymunedol yn galed i reoli'r sialensiau hyn trwy helpu'r teulu i ymweld â'u perthnasau yn y Deyrnas Unedig, eu helpu gyda phethau ymarferol, fel archebu trafndiaeth gyhoeddus, ac esbonio sut y mae proses atgyfeirio ffoaduriaid UNHCR yn gweithio. Cefnogodd y grŵp y teulu i gael cwrs Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), a chwrs galwedigaethol yn y coleg i'r mab. Maent yn helpu'r tad, oedd yn gogydd yn y gorffennol, trwy archwilio'r dewisiadau o ran agor bwyty, a fyddai'n cynnig gwaith i'r teulu hwn a theuluoedd eraill a adsefydlwyd yn yr ardal sydd â sgiliau arlwyo.

Gan fod ganddi hanes o addysg dameidiog, roedd un o'r merched yn ei chael yn anodd addasu ond ar ôl blynyddoedd o gael ei hebrwng i'r ysgol ac oddi yno oherwydd diffyg diogelwch, fe ddechreuodd gerdded i'r ysgol ar ei phen ei hun lai na thri mis ar ôl cyrraedd y Deyrnas Unedig.

Ar ôl byw mewn ofn am gymaint o flynyddoedd, mae'r teulu yn teimlo'n ddiogel, sy'n dyst i'r gefnogaeth ragorol gan y cefnogwr cymunedol. Er iddynt wynebu sialensiau, mae'r grŵp wedi gweld y profiad yn un oedd yn rhoi boddhad ac maent yn bwriadu rhoi cefnogaeth eto.



## Astudiaeth achos 2

Adsefydlwyd teulu o Syria yn cynnwys gŵr a gwraig, dau fab oedd yn oedolion ac un ferch iau mewn dinas yn y Deyrnas Unedig. Pan oeddynt yn byw mewn gwersyll dioddefodd y teulu ymosodiadau a gweld llofruddiaethau ac anafiadau difrifol. Roedd y ddau fab yn cael eu hystyried yn rhai oedd wedi osgoi gorfodaeth filwrol, oedd yn golygu bod y teulu yn byw mewn ofn wrth feddwl am ddychwelyd i Syria a gorfod mynd i garchar, neu i'r ddau fab gael eu gorfodi i'r fyddin yno.

Pan gyrrhaeddodd y teulu y Deyrnas Unedig, nid oeddynt yn siarad Saesneg o gwbl, ond o fewn mis roedd gan y meibion ddealltwriaeth dda o'r iaith. Ar y dechrau, roedd cynnydd y tad yn arafach nag aelodau eraill y teulu, ond roedd pawb yn dangos gwelliant mawr ac nid oedd arnynt angen cyfieithydd o hyd ar ôl 6 mis.

Ar ôl yr ychydig fisoedd cyntaf, dechreuodd tensiynau ymddangos oedd yn bygwth sefydlogrwydd y teulu. Penderfynodd y grŵp cefnogaeth gymunedol siarad â'r teulu yn agored, gan esbonio bod y sefyllfa yn amharu ar eu hadsefydlu. Fe wnaethant gefnogi'r teulu trwy gynnal sesiynau cymedroli, oedd yn canolbwyntio ar ddod o hyd i atebion i'r hyn oedd yn achosi'r tensiwn, peth ohono yn deillio o'r rhwystredigaeth wrth addasu i fywyd yn y Deyrnas Unedig, a'r angen oedd wedi ei ddynodi am ymdrin â'r trawma yr oedd aelodau o'r teulu wedi ei brofi yn Syria. Er bod peth stigma yn gysylltiedig â defnyddio cefnogaeth iechyd meddwl, llwyddodd y grŵp cefnogi i gael cefnogaeth i'r aelodau o'r teulu oedd ei angen.

Ar ôl bron i flwyddyn yn y Deyrnas Unedig, daeth y tad o hyd i waith mewn caffi am gyfnod byr o amser ac fe ddaeth i adnabod llawer o ffrindiau yno. Cafodd y mab hynaf hefyd waith yn yr un caffi, tra'r oedd yn gweithio tuag at ymgeisio am le mewn prifysgol. Mae'r ail fab yn gweithio i gadwyn o fwytai, ac mae wedi cael ei ddynodi gan yr uwch reolwyr fel "seren y dyfodol" a bydd yn gweithio yn eu prif swyddfa tra byddant yn ei gefnogi i wneud ei arholiadau TGAU. Mae'r fam yn gweithio i gwmni melysion, yn datblygu ei sgiliau busnes a Saesneg. Fel rhan o'r rhaglen mae'n gwerthu melysion mewn marchnad ar ddyddiau Sul. Mae'r ferch yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac mae wedi dod i adnabod llawer o ffrindiau.

## **A All Unrhyw Un fod yn Gefnogwr Cymunedol?**

Mae cefnogi teulu a adsefydlwyd bregus yn gyfrifoldeb sylweddol. Bydd y Swyddfa Gartref yn cymeradwyo pob cefnogwr ac mae angen cymeradwyaeth ar wahân ar gyfer pob teulu a adsefydlwyd a gefnogir. Dyluniwyd y broses gymeradwyo i sicrhau bod y noddwr arfaethedig:

- a) â digon o adnoddau (tai, arian a phobl) i gefnogi teulu a adsefydlwyd;
- b) â chynllun gwirioneddol ar gyfer cefnogi teulu a adsefydlwyd, ynghyd â digon o brofiad;
- c) ddim yn peri unrhyw risg i'r teulu a adsefydlwyd.

Gallwch wneud cais i gael eich cymeradwyo fel cefnogwr trwy ddefnyddio'r ffurflen gais yn GOV.UK. Bydd y Swyddfa Gartref yn asesu eich addasrwydd i fod yn gefnogwr cymunedol, yn ôl y meini prawf a nodir isod.

## **Pa Hyfforddiant a Chefnogaeth Sydd ar Gael?**

Mae Reset yn sefydliad sy'n cael ei ariannu gan y Swyddfa Gartref i roi hyfforddiant a chefnogaeth i ddarpar grwpiau cefnogi cymunedol a'r rhai a gymeradwywyd.

Mae Reset yn rhoi hyfforddiant i'r holl grwpiau cefnogi yn y Deyrnas Unedig, yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer gweld teulu a adsefydlwyd yn cyrraedd a grymuso teuluoedd a adsefydlwyd ar ôl iddynt gyrraedd.

Mae Reset yn gweithio gyda rhwydwaith o Gydlynwyr Rhanbarthol sy'n rhoi cyngor, cyfarwyddyd a chefnogaeth i grwpiau cefnogi ar hyd y gefnogaeth i gyd, o'r cais hyd at gefnogi teulu a adsefydlwyd ar ôl iddynt gyrraedd. Maent yn rhannu arfer da ac yn helpu grwpiau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol.

Cewch wybod rhagor am Reset yn: [www.resetuk.org](http://www.resetuk.org)

## Crynodeb o'r Broses Ymgeisio

- Grŵp Cymunedol yn ffurfio ac yn paratoi cais
- Yr Awdurdod Lleol yn rhoi caniatâd i ddarpar gefnogwr weithredu fel cefnogwr cymunedol yn eu hardal
- Y darpar gefnogwr yn cyflwyno cais i gael ei gymeradwyo fel cefnogwr cymunedol
- Y cais yn cael ei ystyried mewn cymhariaeth â'r meini prawf cymeradwyo
- Cymeradwyaeth yn cael ei rhoi
- Cytundeb gyda'r cefnogwr yn cael ei lofnodi
- Y teulu o ffoaduriaid i gael eu hadsefydlu yn cael eu cynnig i'w dyrannu i'r cefnogwr
- Cefnogwr a'r awdurdod lleol yn ystyried ac yn cytuno ar y dyraniad ar y cyd
- Y teulu a adsefydlwyd yn cyrraedd (yn nodweddiadol rhyw chwech i wyth wythnos ar ôl cytuno ar y dyraniad)
- Monitro'r modd y mae'r cefnogwr yn cyflawni a chynnydd y teulu a adsefydlwyd

### Mathau o Gymeradwyaeth

Bydd eich grŵp yn cael **cymeradwyaeth derfynol** a bydd teulu a adsefydlwyd yn cael ei gyfateb â'ch grŵp, pan fyddwch wedi dangos eich bod wedi bodloni'r holl feini prawf (gweler isod).

Wrth gydnabod y gall rhai grwpiau fod angen amser i sicrhau'r adnoddau ariannol angenrheidiol, ac er mwyn lleihau'r angen i gadw tai yn wag, gallwch hefyd ymgeisio i gael **cymeradwyaeth mewn egwyddor gydag amodau**. Felly gall eich cais gael ei gymeradwyo mewn cymhariaeth â'r rhan fwyaf o'r meini prawf, gan roi sicrwydd i'ch grŵp, os gallwch fodloni'r meini prawf adnoddau ariannol a thai ar ddiwedd y broses, y byddwch yn derbyn **cymeradwyaeth derfynol**. Ond, sylwer, os bydd cyfnod sylweddol o amser wedi pasio neu bod amgylchiadau wedi newid, gall eich cais cyfan gael ei adolygu i bennu a ydych yn dal i fodloni'r holl feini prawf.

## Pa Feini Prawf Sydd yn Ofynnol i Gefnogwr Cymunedol eu Bodloni?

### Statws y Sefydliad a'r Cefnogwr Arweiniol

Rhaid i'ch sefydliad fod â statws naill ai fel:

- elusen, a gofrestrwyd gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) yn yr Alban, neu Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon;
- yn unigolyn neu gorff sy'n dod dan adran 10(2)(a) o Ddeddf Elusennau 2011; neu
- yn Gwmni Buddiannau Cymunedol, wedi'i gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau.

Rhaid cael unigolyn wedi ei enwebu â chyfrifoldeb am y trefniant cefnogi, y 'cefnogwr arweiniol'. Dylai'r cefnogwr arweiniol fod â swydd barhaol ac uchel yn y sefydliad. Yn nodweddiadol, bydd yn aelod o'r bwrdd i'r elusen neu'r cwmni budd cymunedol, neu yn dal swydd Prif Weithredwr neu gyfarwyddwr neu gyfatebol. Rhaid cael llinell atebolrwydd glir rhwng y cefnogwr arweiniol a'r personél sy'n cyflawni'r cynllun adsefydlu.

### Adnoddau Ariannol

Rhaid ichi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi meddwl yn ofalus faint y bydd yn ei gostio i gefnogi teulu a adsefydlwyd yn eich cymuned, a bod gennych fynediad at ddigon o adnoddau ariannol. Dylai hyn gynnwys rhagolwg o'r gyllideb o wariant disgwylidig, gan ystyried yr incwm lles cymdeithasol y gall y teulu ei dderbyn a chost disgwylidig y llety. Gall y swm y bydd angen i gefnogwyr cymunedol ei godi amrywio yn sylweddol gan ddibynnu ar y gefnogaeth mewn da y maent yn gallu tynnu arni, ond gall y swm yn nodweddiadol amrywio o tua £5,000 i £20,000. Fel rhan o'ch cais, rhaid i chi roi tystiolaeth bod gennych £9,000 o gyllid ar gael o leiaf<sup>1</sup>.

Nid oes raid i chi ddangos bod gennych £9,000 wrth ddechrau eich cais. Gallwn gymeradwyo eich cais mewn egwyddor, gyda'r amod bod tystiolaeth bod yr arian wedi ei sicrhau yn cael ei rhoi cyn y gymeradwyaeth derfynol.

Os oes gan eich sefydliad **incwm blynyddol nodweddiadol o £100,000 neu fwy**<sup>2</sup>, dylech ddarparu llythyr gan y prif swyddog ariannol ar gyfer eich sefydliad yn

---

<sup>1</sup>Gan gydnabod yr amrywiaeth eang o ran costau y gall cefnogwyr cymunedol eu tynnu a'r hawliau amrywiol i dderbyn arian lles cymdeithasol, bwriad y £9,000 yw dangos bod gennych isafswm o adnoddau ariannol i gefnogi teulu a adsefydlwyd (fel darparu arian parod pan fyddant yn cyrraedd, costau tai ychwanegol, ariannu'r ddarpariaeth Saesneg, a chostau cyfieithu ar y pryd). Bydd y gwir gostau yn amrywio o grŵp cefnogi i grŵp cefnogi ac nid yw'n cael ei awgrymu fel uchafswm nac isafswm o ran gwariant. Disgwylir i chi ddefnyddio'r arian yma i gefnogi'r teulu a adsefydlwyd. Bydd lefel yr adnoddau tu ôl i bob cais yn cael ei ystyried o achos i achos.

<sup>2</sup>Fel sy'n cael ei brofi gan dystiolaeth cyfrifon cyhoeddedig y ddwy flynedd flaenorol gan y Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (OSCR) yn yr Alban, neu Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.

esbonio bod o leiaf £9,000 wedi ei neilltuo ar gyfer dibenion cefnogi ac y bydd ar gael i'w ddefnyddio yn ôl y gofyn.

Os oes gan eich sefydliad **incwm blynyddol nodweddiadol o lai na £100,000**, dylech ddarparu llythyr gan y prif swyddog ariannol ar gyfer eich sefydliad yn esbonio bod o leiaf £9,000 wedi ei neilltuo ar gyfer dibenion cefnogi ac y bydd ar gael i'w ddefnyddio yn ôl y gofyn, a thystiolaeth o fodolaeth yr arian ar ffurf cyfriflen banc.

## Tai

Rhaid i chi fedru dangos bod gennych lety addas a chynaliadwy ar gyfer teulu a adsefydlwyd, ac y bydd ar gael i deulu a adsefydlwyd i'w ddefnyddio am ddwy flynedd o leiaf.

Os nad oes gennych lety ar gael ar unwaith ond eich bod yn gallu dangos y byddwch yn gallu cael llety addas, yna gallwn gymeradwyo eich cais mewn egwyddor, gyda'r amod bod llety addas yn cael ei sicrhau cyn y gymeradwyaeth derfynol.

Rhaid i gost y llety fod yn fforddiadwy gan ystyried yr incwm lles cymdeithasol y bydd y teulu yn ei dderbyn. Os nad yw hyn yn wir, rhaid i chi ddangos sut y byddwch yn talu'r gost ychwanegol.

Mae'n ofynnol i chi gysylltu gyda'r heddlu i weld a oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r cyfeiriad arfaethedig ar gyfer y teulu a adsefydlwyd. Bydd rhagor o gyfarwyddyd am y rhan hon o'r broses yn cael ei roi gan y Swyddfa Gartref.

Mae'n ofynnol i chi roi cadarnhad ysgrifenedig eich bod wedi rhoi cyfle i'r awdurdod lleol archwilio eich eiddo. Rhoddir rhagor o fanylion am ofynion tai yn y datganiad o ofynion yn **Atodiad A**.

Bydd gan grwpiau cefnogi cymunedol sy'n derbyn teulu ar neu ar ôl 1 Tachwedd 2018 hawl i hawlio costau foid gwirioneddol, wedi eu capio ar gyfradd 8 wythnos o Lwfans Tai Lleol. Bydd grwpiau cefnogi cymunedol yn gallu hawlio yn uniongyrchol gan y Swyddfa Gartref ar ôl i'r teulu a adsefydlwyd gyrraedd. Os dymunwch hawlio gallwch gysylltu â'r Tîm Cefnogaeth Gymunedol yn y cyfeiriad e-bost ar dudalen 4, a fydd yn rhoi manylion am hawlio ichi.

## Caniatâd Awdurdod Lleol

Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig yn adsefydlu ffoaduriaid, ac maent hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogaeth gymunedol.

Mae angen i awdurdodau lleol roi caniatâd i bob trefniant cefnogaeth gymunedol yn eu hardal. Mae hyn yn wir oherwydd bydd angen i awdurdodau lleol ystyried effaith lleol teuluoedd ychwanegol sydd wedi adsefydlu ar wasanaethau lleol a faint o wasanaethau sydd ar gael. Bydd awdurdodau lleol hefyd am fodloni eu hunain nad oes ganddynt wrthwynebiad i'ch grŵp cefnogi chi gefnogi teulu a adsefydlwyd.

Rhaid i chi gael tystiolaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod lleol (bydd y ffurf yn cael ei bennu gan yr ardal awdurdod lleol e.e. gall fod yn wahanol rhwng awdurdodau

unedol a rhai dwy haen) eu bod yn rhoi caniatâd i'ch grŵp gyflwyno cais i'r Swyddfa Gartref. Yn nodweddiadol mae'r caniatâd hwn yn cael ei roi gan y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwr neu Gynghorydd perthnasol sydd â'r hawl i roi caniatâd ar ran yr awdurdod lleol. Dewis yr awdurdod lleol yw penderfynu sut y bydd y caniatâd yn cael ei ystyried yn lleol.

Y seiliau y gall awdurdod lleol eu defnyddio i wrthod yw:

- dim digon o allu i ddarparu rhai gwasanaethau lleol allweddol yn yr ardal dai arfaethedig (e.e. diffyg lle mewn ysgolion);
- pryderon am densiynau cymunedol yn yr ardal dai arfaethedig;
- pan fydd ganddynt reswm cryf dros gredu nad yw'r cefnogwr cymunedol yn addas i adsefydlu oedolion a phlant bregus; neu
- reswm priodol arall.

Bydd y bartneriaeth fudo strategol ranbarthol (manylion cyswllt yn **Atodiad B**) yn gallu eich cynghori am yr unigolyn priodol i ymgynghori ag o yn yr awdurdod lleol.

Bydd angen i chi gysylltu â'ch awdurdod lleol a gofyn iddyn nhw:

- greu cyswllt rhyngoch â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant (gweler 'Diogelu' isod);
- ystyried archwilio eich llety arfaethedig;
- gefnogi eich ymgysylltu â phartneriaid perthnasol, fel yr heddlu, Canolfannau Gwaith, Prevent ac ati.
- eich cefnogi trwy'r broses dderbyn i ysgolion

Ar ôl i'ch grŵp gael ei gymeradwyo fel cefnogwr cymunedol, rhaid i'ch awdurdod lleol hefyd gytuno ar y teulu a ddyrannwyd i gael ei adsefydlu (gweler 'Beth sy'n digwydd ar ôl cymeradwyo?' isod).

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am rôl awdurdodau lleol mewn Cefnogaeth Gymunedol, a'r ffactorau a all gael eu hystyried gan awdurdodau lleol ar GOV.UK.

### **Cynllunio ar gyfer Adsefydlu**

Rhaid i chi greu cynllun adsefydlu manwl a chredadwy i ddangos sut y byddwch yn cyflawni cefnogaeth adsefydlu effeithiol i deulu a adsefydlwyd, yn unol â'r datganiad o ofynion (yn **Atodiad A**). Cynhwysir templed ar gyfer eich cynllun adsefydlu fel rhan o'r ffurflen gais. Gellir dod o hyd i'r ffurflen gais a'r cyfarwyddyd ymgeisio ar GOV.UK.

Rhaid i chi ddangos gallu eich grŵp i adsefydlu teulu o ffoaduriaid. Dylech roi manylion am brofiad perthnasol eich grŵp, neu bartneriaeth gyda phobl neu sefydliadau sydd â phrofiad o weithio gyda ffoaduriaid neu'n cefnogi pobl fregus.

## Diogelu

### Polisi Diogelu

Rhaid ichi fod â pholisi a gweithdrefnau diogelu cadarn yn eu lle.

Dylai'r polisi gynnwys sut y byddwch yn sicrhau addasrwydd a chymeriad da y bobl sy'n rhoi cefnogaeth i deulu a adsefydlwyd. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth a yw gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn addas.

Gweler gwefan GOV.UK am ragor o wybodaeth am gymhwyster ar gyfer gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: <https://www.gov.uk/disclosure-barring-service-check>.

Rhaid i'r polisi brofi bod gweithdrefnau cofnodi a dyrchafu addas yn eich sefydliad i sicrhau bod pryderon am ddiogelu yn cael eu trin yn briodol.

Gellir gweld cyfarwyddyd ysgrifenedig am bolisi diogelu yn y cyfarwyddyd ymgeisio ar GOV.UK. Rhoddir anogaeth i chi siarad â'ch awdurdod lleol a all ddymuno eich cefnogi i ddatblygu eich polisi a gweithdrefnau diogelu. Rhaid ichi roi cadarnhad eich bod wedi anfon eich polisi diogelu at y Bwrdd Lleol Diogelu Plant i roi cyfle iddynt roi eu sylwadau.

### Polisi Cwynion

Rhaid ichi ddarparu polisi cwynion, lle gall teulu a adsefydlwyd ddyrchafu pryderon am y gefnogaeth y maent yn ei chael neu am unigolion sy'n rhoi'r gefnogaeth. Gellir gweld cyfarwyddyd ysgrifenedig am ddatblygu eich polisi cwynion yn y cyfarwyddyd ymgeisio ar GOV.UK.

### Hyfforddiant

Cyn ichi gael eich cyfateb â theulu a adsefydlwyd bydd yn ofynnol i chi ddangos eich bod wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol am gefnogi, sy'n cael ei gyflwyno gan Reset. Bydd hyn yn eich helpu i baratoi ar gyfer croesawu a grymuso teuluoedd a adsefydlwyd.

Bydd y rhaglen hyfforddiant yn cynnwys meysydd fel ymwybyddiaeth ddiwylliannol, problemau diogelu wrth weithio gyda theuluoedd a adsefydlwyd, grymuso a chynllunio ar gyfer cyrraedd.

## Sut Fydd y Swyddfa Gartref yn Prosesu Ceisiadau am Gymeradwyaeth fel Cefnogwr Cymunedol?

Bydd y Swyddfa Gartref yn asesu'r dystiolaeth y byddwch yn ei rhoi ar eich cais. Gallwn hefyd gynnal gwiriadau ac ymweld â chi i asesu eich cais yn fwy manwl.

### Gwiriadau ar Bersonél

Byddwn yn cynnal gwiriadau ar eich sefydliad a'r cefnogwr arweiniol. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau yn ein cofnodion ni a thrydydd bartïon eraill fel cyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu, neu yr hyn sy'n cyfateb iddo yng Ngogledd Iwerddon. Gallwn

hefyd gynnal gwiriadau ar aelodau unigol o'ch sefydliad neu'r personél a restrir ar eich ffurflen gais. Pan fydd hyn yn wir byddwch yn cael eich hysbysu yn ysgrifenedig a cheisir caniatâd yr unigolyn. Gallwn gynnal y gwiriadau hyn wrth ystyried eich cais a gallwn eu hailadrodd ar unrhyw adeg.

Os byddwn yn ystyried nad yw eich sefydliad neu'r cefnogwr arweiniol yn addas a phriodol i gymryd y cyfrifoldeb am adsefydlu teulu bregus gallwn wrthod eich cais neu ddiddymu eich cymeradwyaeth. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i: ddarparu gwybodaeth ffug neu anghywir; gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol y Deyrnas Unedig (neu oddefgarwch i wrthwynebiad o'r fath) gan gynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, rhyddid unigolion, hawliau dynol cyffredinol, cydraddoldeb rhywiol, cydraddoldeb cyfle, parch i'n gilydd a goddefgarwch i wahanol gredoau a ffydd, rhyddid i lefaru; collfarnau troseddol; troseddau mewnffudo; neu weithgaredd anghyfreithlon arall.

Cyfrifoldeb y cefnogwr arweiniol yw sicrhau bod unrhyw unigolyn a sefydliadau sy'n cydweithredu a fydd yn ymwneud â chefnogi teulu a adsefydlwyd yn addas i wneud hynny, gan ystyried unrhyw gollfarnau, gweithgareddau, neu wrthwynebiad i werthoedd y Deyrnas Unedig a all fwrw amheuaeth ar pa mor briodol yw unigolyn neu sefydliad a'i addasrwydd i ddarparu unrhyw agwedd o gefnogaeth gymunedol. Os byddwn yn ystyried nad yw unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n cydweithredu sy'n bwriadu ymwneud â chefnogi teulu a adsefydlwyd yn addas a phriodol, gallwn fynnu eich bod yn tynnu eu cyfraniad yn ôl neu gallwn wrthod eich cais neu ddiddymu eich cymeradwyaeth.

## Ymweliadau

Gallwn ymweld â chi cyn llunio penderfyniad am eich cais. Byddwch yn cael rhybudd ymlaen llaw cyn ymweliad. Bydd ymweliad yn rhoi cyfle i asesu eich cais yn fwy manwl ac mae'n rhoi cyfle i chi ofyn unrhyw gwestiynau a all fod gennych. Byddwn yn gwahodd cynrychiolwyr eich awdurdod lleol i ddod i'r cyfarfod hefyd. Yn benodol, gallwn wirio:

- a yw'r wybodaeth a roddwyd gennych yn gywir;
- eich bod yn gallu cynnal teulu a adsefydlwyd;
- a yw eich polisïau a gweithdrefnau diogelu yn briodol; ac
- eich bod wedi cynnal y gwaith cynllunio a pharatoi angenrheidiol yn barod cyn i'r teulu gyrraedd.

## Cais Llwyddiannus

Os byddwch yn bodloni ein holl feini prawf byddwn yn cymeradwyo eich cais. Dan rai amgylchiadau, gallwn gymeradwyo eich cais mewn egwyddor yn amodol ar i'ch grŵp gyflawni unrhyw feini prawf sydd heb eu bodloni eto, fel dangos bod eich grŵp wedi sicrhau llety addas a chynaliadwy, neu roi tystiolaeth bod gan eich grŵp gyllid digonol.



Os na fydd teulu a adsefydlwyd wedi ei ddyrannu i'ch sefydliad cyn pen chwe mis o gael eich cymeradwyo byddwn yn adolygu eich cais. Ar yr adeg honno efallai y gofynnir i chi gyflwyno cais newydd.

### **Cais Aflwyddiannus**

Os na fyddwch yn bodloni'r holl feini prawf cefnogi, fel y'u nodir uchod, yna bydd eich cais yn cael ei wrthod. Bydd y wybodaeth y byddwch wedi ei rhoi yn cael ei hystyried wrth drafod eich cais, yn ogystal ag unrhyw anghysondebau rhwng y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi a'r wybodaeth yr ydym yn ei chael o'n gwiriadau. O ganlyniad, gall eich cais gael ei wrthod os na fyddwch yn rhoi gwybodaeth gywir.

Byddwch yn cael hysbysiad petai eich cais yn cael ei wrthod. Nid oes hawl i apelio.

Ni fydd cais newydd yn cael ei ystyried nes bydd 180 diwrnod wedi mynd heibio ers i benderfyniad gael ei wneud i wrthod eich cais.

Nid oes unrhyw warant y bydd eich cais newydd yn llwyddiannus.

### **Beth sy'n Digwydd ar ôl Cael Cymeradwyaeth?**

#### **Cytundeb**

Byddwch yn llofnodi cytundeb ffurfiol gyda'r Swyddfa Gartref, yn nodi eich cyfrifoldebau a rhai'r Swyddfa Gartref. Gellir gweld cytundeb enghreifftiol ar GOV.UK. **Dylech ddarllen y cytundeb hwn yn llawn cyn cyflwyno cais.**

#### **Dyrannu Teulu i'w Adsefydlu**

Bydd y Swyddfa Gartref yn sicrhau y cwblheir gwiriadau diogelwch ar bob unigolyn fydd yn adsefydlu yn y Deyrnas Unedig. Byddwn yn trefnu fisa a theithio ar gyfer y teulu a adsefydlwyd, yn ogystal â'i Drwydded Breswyl Biometrig yn fuan ar ôl iddynt gyrraedd.

Byddwn yn cydweithio â'r cefnogwr a'r awdurdod lleol i gytuno ar ddyrannu teulu addas. Bydd y Swyddfa Gartref yn dynodi a chynnig teulu sy'n addas i'w hadsefydlu. Disgwylir i'r cefnogwr cymunedol a'r awdurdod lleol gadarnhau y gellir rhoi llety i'r teulu arfaethedig, fel arfer cyn pen pum diwrnod gwaith o dderbyn y cyfeiriad.

Ar ôl derbyn cadarnhad, bydd y teulu i'w hadsefydlu yn cael eu hysbysu. Trefnir iddynt hedfan, a chynllunnir iddynt gyrraedd tua chwe wythnos ar ôl i'r teulu gael eu hysbysu. Cytunir ar y dyddiad cyrraedd gyda'r cefnogwr cymunedol. Byddwch yn cael gwybodaeth am y teulu er mwyn cynorthwyo eich paratodau.

#### **Cyrraedd**

Byddwch yn gwneud trefniadau i gyfarfod y teulu a adsefydlwyd yn y maes awyr ac yn dechrau cyflawni eich cynllun adsefydlu.

## Beth yw Rhwymedigaethau'r Cefnogwr ar ôl cael Cymeradwyaeth?

### Cadw Cofnodion a Phreifatrwydd

Rhaid i chi gadw cofnodion a chopïau o ddogfennau allweddol y teulu a adsefydlwyd, gan gynnwys eu cofrestriad UNHCR, dogfen glirio Mynediad, eu Trwydded Breswyllo Fiometrig, Rhif Yswiriant Gwladol a Rhif GIG. Rhaid i chi sicrhau bod y data yn cael ei gadw yn ddiogel, yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (DPA) 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Mae cynnal preifatrwydd y teulu a adsefydlwyd yn bwysig a rhaid i chi:

- beidio â chyhoeddi unrhyw beth yn allanol sy'n dynodi bod y teulu yn ffoaduriaid; a
- chael caniatâd ar sail gwybodaeth gan y teulu a adsefydlwyd yng nghyswllt unrhyw sylw arfaethedig yn y wasg, ceisiadau neu ddiddordeb ynddynt.

### Monitro a Gwerthuso

Bydd yn ofynnol i chi roi gwybodaeth berthnasol i'r Swyddfa Gartref pan ofynnir amdani i gefnogi monitro a gwerthuso ar eich trefniant cefnogi a'r cynllun cefnogi yn ehangach. Mae hyn yn debygol o gynnwys tystiolaeth o gyflawni'r cynllun adsefydlu, yn ogystal â deilliannau ar gyfer y teulu a adsefydlwyd.

Bydd y Swyddfa Gartref yn trefnu cyfarfodydd monitro ar ôl i'r teulu sydd wedi ei adsefydlu gyrraedd, naill ai trwy ymweliadau neu trwy gyfathrebu digidol yn ôl dewis y Swyddfa Gartref, i gefnogi monitro a gwerthuso eich trefniant cefnogi. Byddwn yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i chi o'r cyfarfodydd monitro hyn, pan fyddwn yn cyfarfod eich grŵp cefnogi a'r teulu a adsefydlwyd ar wahân. Petai ar y teulu a adsefydlwyd ei angen, bydd yn ofynnol i chi ddarparu cyfieithydd ar y pryd. Er y byddwn fel arfer yn rhoi rhybudd ymlaen llaw am ymweliad, gall amgylchiadau godi pan fydd ymweliad dirybudd yn cael ei gynnal.

### Defnyddio Gwybodaeth

Gallwn ddefnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi i ni pan fyddwch yn gwneud cais am ganiatâd i gefnogi, neu ar unrhyw gyfnod trwy gydol eich cytundeb cefnogi, yn unol â Siarter Gwybodaeth Personol y Swyddfa Gartref.

Mewn rhai amgylchiadau, gall manylion gael eu trosglwyddo i adrannau ac asiantau eraill y llywodraeth, awdurdodau lleol ac asiantaethau atal twyll (fel Cyllid a Thollau EM (HMRC), yr Adran Gwaith a Phensiynau a System Osgoi Twyll y Diwydiant Credyd (CIFAS) ar gyfer dibenion mewnfudo, atal twyll a throseddoldeb a/neu eu helpu i gyflawni eu swyddogaethau.

Gall y cyrff hyn roi gwybodaeth i'r Swyddfa Gartref amdanoch chi a'ch gweithwyr. Mae mwy o fanylion yn esbonio pryd y gall gwybodaeth gael ei throsglwyddo i gyrrff eraill, a sut y gall y wybodaeth honno gael ei defnyddio, ar gael ar wefan GOV-UK yn: [www.gov.uk/government/organisations/home-office/about/personal-information-charter](http://www.gov.uk/government/organisations/home-office/about/personal-information-charter)

Mae'r hysbysiad gwybodaeth preifatrwydd Ffiniau, Mewnfudo a Dinasyddiaeth yn adlewyrchu eich hawliau dan ddeddfwriaeth diogelu data gan gynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac mae'n rhoi gwybod i chi bod y Swyddfa Gartref yn gofalu am eich gwybodaeth bersonol ac yn ei defnyddio yn y system ffiniau, mewnfudo a dinasyddiaeth. Mae hefyd yn esbonio sut y gallwch ofyn am gopi o'ch gwybodaeth.

<https://www.gov.uk/government/publications/personal-information-use-in-borders-immigration-and-citizenship>

## Atodiad A – Datganiad o’r Gofynion ar gyfer Cefnogwyr

### Llety

**Nod: Y teulu a adsefydlwyd â chartref i setlo ynddo yn y Deyrnas Unedig, gyda digon o le a chyfleusterau i fyw yn gyfforddus.**

Mae’n ofynnol i gefnogwyr ddod o hyd i lety addas a chynaliadwy, sydd ar gael i’w ddefnyddio gan y teulu a adsefydlwyd am o leiaf ddwy flynedd gyda phrydles dwy flynedd. Rhaid i’r llety:

- fod ar gael i’r teulu a adsefydlwyd ar gost sy’n fforddiadwy a chynaliadwy, o ystyried yr incwm lles cymdeithasol y bydd y teulu yn ei dderbyn;
- fod â mynediad annibynnol a rhoi digon o breifatrwydd;
- gydymffurfio â chyfarwyddyd yr awdurdod lleol am lefelau daliadaeth;
- fod mewn cyflwr priodol o ran strwythur, wedi ei gynnal a’i gadw trwyddo ac mewn cyflwr da;
- fod â chyflenwadau trydan a/neu nwy diogel, a gyda digon o awyru a golau.

Dylai’r eiddo gael ei ddodrefnu yn addas gyda:

- y nifer a’r math addas o welyau;
- thoiled, basn ymolchi a bath neu gawod wedi eu gosod gyda dŵr poeth ac oer;
- offer gwresogi sefydlog ym mhob ystafell, a all wresogi yn effeithiol ac y gall y tenant ei reoli;
- chyfleusterau coginio ac ar gyfer paratoi a storio bwyd yn lanwaith (er enghraifft, hob 4 cylch gyda phopty a gril, rhew-oergell, popty microdon, a sinc yn gegin);
- mynediad at gyfleusterau golchi dillad (e.e. peiriant golchi neu olchdy gerllaw);
- mynediad at gyfleusterau i sychu dillad (e.e. lein ddillad y tu allan neu rac sychu dillad dan do);
- blanced dân a larymau mwg (gan gynnwys larwm carbon monocsid pan fydd hynny’n addas);

Rhaid i’r Cefnogwr ddarparu:

- cymorth i gofrestru gyda chwmnïau cyfleustodau a sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud i dalu (dim cyfrifon talu ymlaen llaw/cerdyn);
- gwybodaeth i unigolion a adsefydlwyd am y llety, iechyd a diogelwch, a man cyswllt mewn argyfwng.

## Croeso i'r Deyrnas Unedig

**Nod: Y teulu wedi adsefydlu yn teimlo bod croeso iddynt yn y Deyrnas Unedig ac yn gallu cyfarwyddo â bywyd yn y Deyrnas Unedig yn gyflym.**

Mae'n ofynnol i gefnogwyr:

- gyfarfod a chyfarch y teulu sy'n cyrraedd o'r maes awyr perthnasol a'u hebrwng i'w llety, gan roi cyfarwyddiadau iddynt sut i ddefnyddio'r cyfleusterau;
- roi pecyn croeso o nwyddau, y dylai'r cynnwys ystyried diwylliant a chenedl y teulu a adsefydlwyd;
- roi £200 i bob unigolyn (oedolion a phlant) mewn arian parod wrth gyrraedd ar gyfer costau cychwynnol gan gynnwys nwyddau i'r tŷ, nwyddau ymolchi, dillad, a sicrhau bod gan y teulu ddigon o gyllid i fyw arnynt tra bydd yr hawliad am fudd-daliadau yn cael ei brosesu (e.e. ar gyfer teulu o bump byddai'r cefnogwr yn darparu £1,000);
- rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i ddefnyddio siopau, gwasanaethau a chludiant lleol.

## Sefydlu Bywyd yn y Deyrnas Unedig

**Nod: Y teulu a adsefydlwyd yn cael eu grymuso i greu bywyd iddynt eu hunain ac integreiddio yn y Deyrnas Unedig, trwy ddefnyddio gweithgareddau cymunedol, gofal meddygol, sgiliau iaith, addysg a gwaith.**

Mae'n ofynnol i gefnogwyr:

- sicrhau bod aelodau o'r teulu a adsefydlwyd yn derbyn eu Trwyddedau Preswyllo Biometrig cyn pen 1 diwrnod o'u derbyn;
- roi cymorth i gofrestru plant mewn ysgolion lleol cyn gynted ag sy'n bosibl – gan ddechrau cyn iddynt gyrraedd a gorffen cofrestru dim hwyrach na 2 wythnos ar ôl cyrraedd;
- ddarparu gwasanaethau cyfieithu yn ôl y gofyn am 12 mis ar ôl iddynt gyrraedd;
- drefnu hyfforddiant Saesneg i oedolion cyn gynted ag sy'n bosibl a chyn pen un mis o gyrraedd;
- ddarparu hyfforddiant Saesneg ffurfiol gan athro ESOL gyda chymwysterau addas, am leiafswm o 8 awr yr wythnos am y 12 mis cyntaf;
- wneud trefniadau i ategu at yr hyfforddiant Saesneg ffurfiol yn gyson trwy gael cyfle i sgwrsio yn Saesneg yn llai ffurfiol;
- fonitro cynnydd pob unigolyn ac anelu am o leiaf un lefel ESOL o gynnydd (mewn siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu) yn ystod y flwyddyn;
- roi'r cyfle i gael cymhwyster yn y Saesneg ar y lefel briodol, pan fydd hyn yn rhoi hwb i gael mynediad i waith ac addysg;

- gefnogi'r teulu i fynd i apwyntiadau Canolfan Waith i gael asesiadau budd-dal, cyn pen tri diwrnod o gyrraedd;
- gynorthwyo wrth gofrestru â meddyg teulu lleol, cyn pen wythnos o gyrraedd;
- gynghori ar ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl addas a gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr arteithio fel bydd yn briodol;
- roi cymorth i gael gwaith, gan gynnwys datblygu curriculum vitae, ac addysg;
- roi cymorth wrth ddefnyddio gwasanaethau digidol;
- roi gwybod am weithgareddau cymunedol lleol a rhoi cymorth iddynt fynd yno, o fewn y sefydliad cefnogi a thu hwnt iddo, fel grwpiau chwarae plant, boreau coffi, clybiau lleol, digwyddiadau lleol ac ati.

## Atodiad B – Partneriaethau Mudo Strategol Rhanbarthol – Manylion Cyswllt

Rhanbarth	Swyddog arweiniol	E-bost	Gwefan
Dwyrain Lloegr	Gosia Strona	<a href="mailto:Malgorzata.Strona@eelga.gov.uk">Malgorzata.Strona@eelga.gov.uk</a>	<a href="http://smp.eelga.gov.uk/">http://smp.eelga.gov.uk/</a>
Dwyrain Canolbarth Lloegr	Sarah Short	<a href="mailto:Sarah.Short@emcouncils.gov.uk">Sarah.Short@emcouncils.gov.uk</a>	<a href="http://www.emcouncils.gov.uk/East-Midlands-Strategic-Migration-Partnership">http://www.emcouncils.gov.uk/East-Midlands-Strategic-Migration-Partnership</a>
Llundain	Nicola Marven	<a href="mailto:Nicola.Marven@london.gov.uk">Nicola.Marven@london.gov.uk</a>	<a href="https://www.london.gov.uk/what-we-do/communities/migrants-and-refugees/helping-resettlement-refugees">https://www.london.gov.uk/what-we-do/communities/migrants-and-refugees/helping-resettlement-refugees</a>
Gogledd Dwyrain Lloegr	Janine Hartley	<a href="mailto:Janine_Hartley@middlesbrough.gov.uk">Janine_Hartley@middlesbrough.gov.uk</a>	<a href="http://www.nesmp.org.uk">www.nesmp.org.uk</a>
Gogledd Orllewin Lloegr	Colin Parker Alison Bacon	<a href="mailto:colin.parker@manchester.gov.uk">colin.parker@manchester.gov.uk</a> <a href="mailto:a.bacon1@manchester.gov.uk">a.bacon1@manchester.gov.uk</a>	<a href="http://northwestsmp.org.uk/">http://northwestsmp.org.uk/</a>
Gogledd Iwerddon	-	<a href="mailto:race.equality@executiveoffice-ni.gov.uk">race.equality@executiveoffice-ni.gov.uk</a>	<a href="http://www.executiveoffice-ni.gov.uk">www.executiveoffice-ni.gov.uk</a>
Yr Alban	Andrew Morrison	<a href="mailto:andrew@cosla.gov.uk">andrew@cosla.gov.uk</a>	<a href="http://www.migrationscotland.org.uk">www.migrationscotland.org.uk</a>
De Dwyrain Lloegr	Roy Millard Susan Fawcus (Cydllynydd Adsefydlu)	<a href="mailto:RoyMillard@secouncils.gov.uk">RoyMillard@secouncils.gov.uk</a> <a href="mailto:sespm@secouncils.gov.uk">sespm@secouncils.gov.uk</a>	<a href="http://www.secouncils.gov.uk/about-us/about-sespm">www.secouncils.gov.uk/about-us/about-sespm</a>
De Orllewin Lloegr	Kelly-Anne Phillips	<a href="mailto:kelly-anne.phillips@swcouncils.gov.uk">kelly-anne.phillips@swcouncils.gov.uk</a>	<a href="http://www.swcouncils.gov.uk/ngcontent.cfm?a_id=3141">www.swcouncils.gov.uk/ngcontent.cfm?a_id=3141</a>
Cymru	Anne Hubbard	<a href="mailto:anne.hubbard@wlga.gov.uk">anne.hubbard@wlga.gov.uk</a>	<a href="http://www.wmsmp.org.uk">www.wmsmp.org.uk</a>
Gorllewin Canolbarth Lloegr	Dally Panesar	<a href="mailto:Dalvinder.Panesar@birmingham.gov.uk">Dalvinder.Panesar@birmingham.gov.uk</a>	<a href="http://www.wmsmp.org.uk">http://www.wmsmp.org.uk</a>
Swydd Efrog a Glannau Humber	David Brown	<a href="mailto:admin@migrationyorkshire.org.uk">admin@migrationyorkshire.org.uk</a>	<a href="http://www.migrationyorkshire.org.uk">www.migrationyorkshire.org.uk</a>

